

MANYLEB PERSON

Sgiliau, Gwybodaeth a Phrofiad

Hanfodol

Profiad:

- Profiad dangosadwy o arwain a rheoli rhaglenni cymhleth sy'n cynnwys prosiectau, partneriaid a ffrydiau cyllido lluosog, gan gyflawni yn erbyn allbynnau cytunedig, canlyniadau a chyllidebau.
- Profiad o reoli rhaglenni cyllido, gan gynnwys asesu, dyrannu, monitro a chydymffurfio â gofynion ariannwr.
- Profiad profedig o reoli llinell, gan gynnwys gosod amcanion, rheoli perfformiad, hyfforddi a datblygu staff i gyflawni canlyniadau rhaglen.
- Hanes cryf o ddatblygu a rheoli partneriaethau strategol gyda chyrrff cyhoeddus, cyllidwyr, a sefydliadau VCSE.
- Profiad o gefnogi sefydliadau cymunedol neu fentrau cymdeithasol, gan gynnwys datblygu sefydliadol, llywodraethu a chynaliadwyedd.
- Profiad o brosiectau datblygu asedau cymunedol a/neu drosglwyddo asedau cymunedol.
- Profiad o adrodd i uwch randdeiliaid, cyllidwyr neu Fyrddau, gan gynnwys cyflwyno data perfformiad, risgiau ac effaith.

Gwybodaeth:

- Dealltwriaeth fanwl o'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu hen gymunedau meysydd glo yng Nghymru.
- Dealltwriaeth gref o'r sector VCSE, gan gynnwys llywodraethu, cynaliadwyedd ariannol a meithrin gallu.
- Gwybodaeth am fframweithiau polisi, cyllid a deddfwriaethol perthnasol yng Nghymru sy'n ymwneud ag adfywio a pherchnogaeth gymunedol.
- Dealltwriaeth o egwyddorion rheoli rhaglenni a phrosiectau, gan gynnwys rheoli risg a gwerthuso.
- Ymwybyddiaeth o fodelau perchnogaeth asedau cymunedol, gan gynnwys ystyriaethau cyfreithiol ac ariannol.

Sgiliau a Chymwyseddau:

- Y gallu i arwain, ysgogi a rheoli tîm yn effeithiol.
- Sgiliau trefnu a chynllunio cryf gyda'r gallu i reoli ffrydiau gwaith lluosog.
- Ymwybyddiaeth ariannol gan gynnwys rheoli cyllideb ac ystyriaethau gwerth am arian.
- Sgiliau rheoli rhanddeiliaid rhagorol a meithrin perthynas.
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar cryf.
- Y gallu i ddadansoddi data perfformiad a datrws problemau cymhleth.

Teithio:

- Trwydded yrru lawn a mynediad at gerbyd dibynadwy neu allu teithio'n effeithlon ar gyfer cwrs eich dyletswyddau, ledled y DU.
- Efallai y bydd angen teithio achlysurol y tu allan i Gymru.

Dymunol

Sgiliau a Chymwyseddau:

- Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Priodweddau Personol

- Trefnus iawn.
- Gwydn a chanolbwyntio ar atebion.
- Cydwybodol gydag agwedd gadarnhaol.
- Cydweithredol a phartneriaeth.
- Parodrwydd i weithio'n hyblyg fel rhan o dîm proffesiynol iawn er mwyn cwrdd â gofynion llwyth gwaith, gan gynnwys gweithio y tu allan i oriau gwaith arferol.
- Wedi'i yrru gan werthoedd ac wedi'i alinio â chenhadaeth YAyMG.

Safle o fewn strwythur YAyMG

Bydd y Rheolwr Datblygu yn arwain Tîm Cymorth YAyMG a chyflwyno rhaglenni cyllid a chymorth YAyMG yng Nghymru, gan adrodd i'r Uwch Reolwr Gweithrediadau.

Mae'r rôl yn sicrhau:

- Mae rhaglen a chyllid cymorth YAyMG yng Nghymru (gan gynnwys buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru) yn adeiladu capasiti, gwytnwch a chynaliadwyedd hirdymor sefydliadau MCCG yn hen gymunedau'r meysydd glo.
- Mae prosiectau trosglwyddo a datblygu asedau cymunedol cymhleth a dwys yn cael eu cydlynu a'u cefnogi, mewn partneriaeth â chymunedau a chyrff cyhoeddus.
- Mae tîm bach yn: yn cael ei reoli; ei gefnogi; a'i ddatblygu, trwy osod amcanion clir, rheoli perfformiad a hyfforddiant.
- Mae gwybodaeth gymhleth yn cael ei chyfathrebu'n glir i ystod o gynulleidfaoedd ac mae materion sensitif yn cael eu trin yn ddiplomyddol.
- Mae polisïau, gweithdrefnau a gweithrediadau'r rhaglen yn cael eu hadolygu a'u datblygu i gryfhau cyflawni a chydymffurfio.

Mae'n galluogi'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i sicrhau bod Cymorth YAyMG yn cael ei ddarparu i safon uchel a bod asedau cymunedol yn cael eu diogelu'n gadarn.